Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau (1994)

Datganiad Cryno

a Chylchlythyr 2026

Arts Council Retirement Plan (1994)

Croeso a chyflwyniad gan Mark Engelbretson

Croeso i'ch datganiad cryno ar gyfer 2026 a'ch cylchlythyr ar gyfer Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau (1994) ("y Cynllun").

Mae'r datganiad yn rhoi diweddariad am sefyllfa ariannol y Cynllun a thynnu sylw at ddatblygiadau pwysig dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynhelir prisio actiwaraidd llawn o'r Cynllun bob tair blynedd a elwir yn 'brisio actiwaraidd tair blynedd', gyda diweddariadau blynyddol yn y blynyddoedd yn y cyfamser. Cynhaliwyd y prisio actiwaraidd tair blynedd ddiweddaraf ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r datganiad yn amlinellu sefyllfa ariannol y Cynllun ym mhrisio actiwaraidd 2025 a sut mae'r sefyllfa ariannol yn newid ers hynny. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am faterion ledled y diwydiant a allai effeithio ar eich pensiwn a sut bu'r Ymddiriedolwyr yn rheoli'r Cynllun, gyda ffocws penodol ar fuddsoddiad cyfrifol.

Fel Ymddiriedolwyr, rydym yn gyfrifol am fonitro iechyd ariannol y Cynllun ac adrodd am ei sefyllfa ariannol i aelodau. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr a chyflogwyr gydweithio i gynnal iechyd ariannol y Cynllun ac mae'n rhaid inni gyhoeddi'r datganiad cryno i bob aelod.

Gobeithio bod y datganiad cryno'n eich helpu i ddeall y trefniadau ariannol sy'n cefnogi eich buddion ymddeol.

Sut mae'r Cynllun yn gweithio?

Mae'r Cynllun yn darparu buddion diffiniedig fel y nodir yn rheolau'r Cynllun. Mae'r buddion yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy ar y pwynt gadael cyflogaeth a pha mor hir y buoch yn aelod o'r Cynllun. Mae rhagor o wybodaeth am eich buddion yn y Cynllun ar gael ar eich gwefan bwrpasol i aelodau, 'PRISM'. Gweler tudalen 7 am fanylion am sut i gael mynediad i'r wefan.

Mae'r buddion yn cael eu hariannu gan gyfraniadau gan y cyflogwyr a'r aelodau sy'n cael eu talu ar y cyd i'r Cynllun. Gydag enillion buddsoddi, mae'r gronfa'n talu buddion i aelodau o'r Cynllun a/neu eu dibynyddion nawr ac yn y dyfodol. Mae'r cyflogwyr sy'n ei noddi yn cwrdd â chostau rhedeg y Cynllun.

DEALL EICH DATGANIAD CRYNO

Beth yw ystyr y geiriau?

Mae gan bensiynau eu hiaith arbenigol â geiriau sydd ag ystyr benodol. Dyma esbonio rhai o'r geiriau yn y datganiad.



Asedau

Dyma'r holl arian sy'n cronni yn y Cynllun fel buddsoddiadau, cyfranddaliadau, bondiau cwmni, eiddo ac arian yn y banc.



Rhwymedigaethau

Dyma bopeth sy'n ddyledus i'r Cynllun nawr a gwerth disgwyliedig y buddion y bydd yn rhaid iddo eu talu i aelodau a'u dibynyddion yn y dyfodol.



Gwarged

Os oes gan y Cynllun ragor o asedau na rhwymedigaethau, mae ganddo warged.



Diffyg

Os oes gan y Cynllun ragor o rwymedigaethau nag asedau, mae ganddo ddiffyg.



Lefel ariannu

Dyma'r asedau wedi'u rhannu â'r rhwymedigaethau. Pe bai gwerth yr asedau'n hafal i'r rhwymedigaethau, byddai'r lefel ariannu yn 100%.



Actiwari'r Cynllun

Gweithiwr proffesiynol a benodir gan yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am asesu cynaliadwyedd ariannol y Cynllun a darparu cyngor am gyfraniadau a rheoli perygl. Y prisio actiwaraidd yw gwaith Actiwari'r Cynllun.

EICH DATGANIAD CRYNO

Sefyllfa ariannol y Cynllun

Ar ddyddiad prisio actiwaraidd ffurfiol diweddaraf y Cynllun (31 Mawrth 2025), canfu Actiwari'r Cynllun:

Bod gan y Cynllun asedau o	**£236.8 miliwn**
Y swm yr oedd ei angen ar y Cynllun i ddarparu buddion oedd	**£187.1 miliwn**
Roedd gwarged o	**£49.7 miliwn**
Y lefel ariannu:	**127%**

Sut mae wedi newid?

Amcangyfrifir sefyllfa ariannol y Cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn. Ar 31 Mawrth 2026, roedd amcangyfrif y sefyllfa ariannu fel a ganlyn:

Roedd gan y Cynllun asedau o	**£265.2 miliwn**
Y swm yr oedd ei angen ar y Cynllun i ddarparu buddion oedd	**£192.3 miliwn**
Roedd gwarged o	**£72.8 miliwn**
Y lefel ariannu:	**138%**

Ers 31 Mawrth 2025, mae'r lefel ariannu wedi gwella oherwydd enillion cryf buddsoddiadau'r Cynllun sydd wedi cynyddu gwerth asedau'r Cynllun. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun hefyd wedi cynyddu dros y cyfnod. Mae'r cynnydd mewn asedau wedi bod yn fwy na'r cynnydd i'r rhwymedigaethau. O ganlyniad, mae'r lefel ariannu wedi gwella ers y prisio tair blynedd diwethaf.

Beth pe bai'r Cynllun yn dechrau dirwyn i ben?

Un o'r gwiriadau y mae Actiwari'r Cynllun yn ei wneud yw amcangyfrif sefyllfa ariannol y Cynllun pe bai'n cael ei ddirwyn i ben ac na delir unrhyw gyfraniadau pellach gan y cyflogwyr sy'n noddi'r Cynllun. Pe bai'r Cynllun, ar brisio actiwaraidd tair blynedd 31 Mawrth 2025, yn cael ei gau a'r rhwymedigaethau ar gyfer yr holl fuddion hyd at y dyddiad yna'n cael eu trosglwyddo i gwmni yswiriant, byddai gan y Cynllun ddigon o asedau i dalu'r holl fuddion, gyda gwarged o £25.7 miliwn yn weddill.

Rydym yn galw'r sefyllfa yma'n 'solfedd llawn'. Mae'n cyfateb i lefel solfedd o 112%, o'i gymharu â 64% yn y prisio blaenorol yn 2022.

Rhaid inni amcangyfrif y sefyllfa i roi darlun cyflawn o iechyd ariannol y Cynllun. Nid yw'n golygu bod y cyflogwyr sy'n ei noddi yn meddwl cau'r Cynllun.

Pe bai'r Cynllun yn cau ac na allai'r cyflogwyr sy'n ei noddi dalu digon i dalu buddion yr aelodau yn llawn, gallai'r Gronfa Diogelu Pensiwn (PPF) gymryd y Cynllun drosodd a thalu iawndal i aelodau. Nid nod y PPF yw talu pensiwn pob aelod yn llawn ond i sicrhau bod aelodau'n cael y rhan fwyaf o'u pensiwn. Fel arfer dyma ryw 90% o'r pensiwn ar gyfer y rhan fwyaf o aelodau dan oedran pensiwn arferol a 100% ar gyfer y mwyafrif o bensiynwyr. Ond mae unrhyw gynnydd i bensiynau unwaith y bydd cynllun yn y PPF yn llai hael na'r cynnydd y byddai'r Cynllun wedi'i roi.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y PPF: **www.ppf.co.uk**

Gallwch hefyd e-bostio: **information@ppf.co.uk**

neu ffoniwch: **0345 600 2541**
9am-5.30pm, Llun-Gwener

Cynllun Adfer

Am fod gan y Cynllun warged ym mhrisio ffurfiol 2025, nid oes rhaid i'r cyflogwyr sy'n ei noddi wneud cyfraniadau at y Cynllun am unrhyw ddiffyg, o leiaf tan 1 Ebrill 2029. Bydd y sefyllfa yn cael ei hasesu eto yn y prisio tair blynedd nesaf (ar 31 Mawrth 2028).

Taliadau i gyflogwyr

Mae'n ofynnol inni roi gwybod ichi nad oes unrhyw daliadau i'r cyflogwyr sy'n ei noddi allan o'r Cynllun ers datganiad y llynedd.

Datgan ymwneud y Rheoleiddiwr Pensiynau

Yn ôl y ddeddfwriaeth, rhaid inni roi gwybodaeth benodol ichi am gyfranogi'r Rheoleiddiwr Pensiynau o'r Cynllun.

Rydym yn cadarnhau nad yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn gwneud unrhyw addasiadau na chyfarwyddiadau i'r Cynllun ers datganiad y llynedd.

Diweddariad y Cadeirydd a newyddion y Cynllun

Darllenwch ymlaen am neges gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr a'r diweddariadau gan yr Ymddiriedolwyr.

Am ragor o wybodaeth neu gynnig adborth

Gobeithio y cewch fudd o'r datganiad a'r cylchlythyr.

Croeso ichi rannu adborth â ni neu godi unrhyw beth arall yr hoffech ei weld mewn diweddariadau yn y dyfodol.

I ofyn cwestiynau am y Cynllun neu am gael copïau o ddogfennau'r Cynllun, cysylltwch â'r gweinyddwyr gan ddefnyddio'r manylion ar y dde.

Rhoi gwybod i'r Ymddiriedolwyr

Er mwyn inni allu parhau i anfon gwybodaeth atoch am eich pensiwn, cofiwch roi gwybod os yw'ch cyfeiriad yn newid. Os ydych yn aelod gweithredol, rhowch wybod i'ch cyflogwr am eich newid cyfeiriad. Os ydych yn aelod gohiriedig neu bensiynwr, cysylltwch â'r gweinyddwyr neu diweddarwch eich manylion ar-lein drwy PRISM (gweler tudalen 7 am fanylion).

Cofiwch hefyd gadw eich dewisiadau 'Mynegi Dymuniad' yn gyfredol, yn enwedig os bydd newid yn eich amgylchiadau. Mae'r Mynegi Dymuniad yn ffordd ichi nodi pwy yr hoffech ei enwi i gael buddion marwolaeth a phensiynau dibynnol ar ôl ichi farw. Enwebwch ragor nag un person os hoffech. Nid yw'ch dewis yn rhwymol ar yr Ymddiriedolwyr neu weinyddwr y Cynllun ond byddant yn ei ystyried wrth benderfynu am roi'r buddion neu'r pensiwn.

Gallwch ddiweddaru'r wybodaeth drwy gysylltu â gweinyddwyr y Cynllun, gofyn am ffurflen gan dîm Pobl eich cyflogwr neu ddiweddaru eich dewis fuddiolwyr ar-lein drwy PRISM (gweler tudalen 7).

Cyfeiriad:

Gweinyddwyr Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau

Hymans

Robertson,

20 Stryd Waterloo,

Glaschu/Glasgow

G2 6DB

Ffôn: 0141 566 7656

E-bost: artscouncil@hymans.co.uk

EICH HYSBYSU AM EICH PENSIWN

Neges gan Mark Engelbretson

Fel Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, rwy'n falch o'ch croesawu i'r rhifyn diweddaraf o'ch cylchlythyr pensiwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae byd y pensiynau wedi parhau i newid ac rydym yn darparu diweddariadau am ddatblygiadau diweddar y Cynllun yma.

Rwy'n gweithio yn y diwydiant pensiynau ers 30 mlynedd gan gynrychioli'r cwmni ymddiriedolwyr proffesiynol, Ymddiriedolwyr Ross Cyf. Yn ystod fy ngyrfa, bûm yn gweithio mewn nifer o swyddi uwch ym maes pensiynau gan gefnogi trefniadau pensiwn i ystod o gyflogwyr mawr. Rwyf yn cefnogi'r celfyddydau i'r carn ac felly mae'n anrhydedd bod yn rhan o'r Cynllun.

Mark Engelbretson

Cadeirydd Ymddiriedolwyr Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau (1994)



Mae sefyllfa'r Cynllun yn parhau'n gryf

Fel y dangosir ar dudalen 3, mae'r prisio actiwaraidd ar 31 Mawrth 2025, a gafodd ei wneud yn ystod y flwyddyn, yn dangos sefyllfa ariannol gref.

Mae sefyllfa ariannu'r Cynllun wedi gwella o ddiffyg o £18.3 miliwn ym mhrisio 2022 i warged o £49.7 miliwn ym mhrisio 2025 sy'n galonogol iawn.

Ers prisio 2025 mae sefyllfa ariannu'r Cynllun yn parhau i wella, gyda gwarged o £72.8 miliwn ar 31 Mawrth 2026. Mae hyn oherwydd yn bennaf enillion da o asedau'r Cynllun, yn ogystal ag amodau'r farchnad sy'n helpu i wrthbwyso'r effaith ar rwymedigaethau cronni rhagor o fuddion.

Cefnogaeth i'n Cynllun a'n Gweledigaeth

Mae'r 3 chyflogwr noddi mwyaf yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod gan bob gweithiwr parhaol yr hawl i fod aelod o'r Cynllun a pharhau i wneud cyfraniadau tuag at fuddion aelodau. Mae'r cyfamod cyflogwr cryf yn ein galluogi fel ymddiriedolwyr i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ar gyfer y Cynllun.

Gan fod y Cynllun yn parhau ar agor i aelodau newydd a buddion yn dal i gronni, mae'r amserlen ar gyfer talu buddion a buddsoddi asedau yn parhau i fod yn un hirdymor iawn.

Felly, credwn ei bod yn bwysig ystyried materion buddsoddi cyfrifol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau â'n gwaith o fuddsoddi'n gyfrifol gan gynnwys datblygu cynllun buddsoddi cyfrifol ar gyfer y Cynllun.

Mae rhagor o wybodaeth am ein dull o stiwardio a buddsoddi cyfrifol wrth reoli asedau eich Cynllun ar dudalen 8.

Cyfraniadau Blynyddoedd Ychwanegol

Hoffem atgoffa aelodau gweithredol am fantais cael 'Blynyddoedd Ychwanegol'. Mae cyfraniadau yma'n rhai y gall aelodau gweithredol ddewis eu talu er mwyn prynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiynadwy yn y Cynllun.

Mae buddion yn y Cynllun yn seiliedig ar eich cyflog terfynol a'ch gwasanaeth pensiynadwy. Mae prynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth yn cynyddu'r pensiwn a swm mawr y cyfandaliad di-dreth sydd ar gael ichi o'r Cynllun ar ôl ymddeol.

Mae cyfraniadau Blynyddoedd Ychwanegol yn cael eu talu fel canran o'r cyflog, ochr yn ochr â chyfraniadau aelodau arferol. Fel gyda chyfraniadau pensiwn arferol, efallai y bydd rhyddhad treth ar gael gan ddibynnu ar eich amgylchiadau unigol.

Dim ond yn flynyddol o ddyddiad eich pen-blwydd y gellir gwneud cyfraniadau blynyddoedd ychwanegol. Caniatewch o leiaf 3 mis cyn eich pen-blwydd nesaf cyn gofyn am sefydlu cyfraniadau blynyddoedd ychwanegol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y llyfryn aelodau sydd ar gael ar wefan y Cynllun:
Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau neu drwy gysylltu â Hymans Robertson, gweinyddwyr y Cynllun.

Cynnydd mewn pensiwn

Cynyddodd y rhan fwyaf o bensiynau sy'n cael eu talu gan 3.8% yn Ebrill 2026, yn unol â'r cynnydd blynyddol yn y Mynegai Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) hyd at Fedi 2025, sef ar yr un sail sydd gan y rhan fwyaf o gynlluniau'r sector cyhoeddus i bennu codiadau pensiwn. Mae'n cynnwys elfennau o'r pensiwn lle nad yw cynnydd CPI wedi'i warantu. Dyma gynnydd pensiwn yn ôl disgresiwn a gymeradwywyd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr a Chyngor Celfyddydau Lloegr fel y Prif Gyflogwr.

Cydraddoldeb Pensiwn - Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn 2018, rhaid i ymddiriedolwyr cynllun pensiwn fynd i'r afael â chynnwys elfen o GMP i sicrhau bod buddion pensiwn yn gyfartal i ddynion a menywod. Cronnwyd GMP cyn 5 Ebrill 1997. I'r rhai ohonoch a oedd ag elfen GMP yn eich pensiwn a oedd yn cael ei dalu ar adeg yr ymarfer, os ydych wedi cael eich effeithio gan gydraddoldeb, byddwch wedi derbyn llythyr yn esbonio'r effaith ar eich pensiwn.

Newidiadau i'r dreth etifeddant

Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi newidiadau i'r dreth etifeddiant a sut mae'n berthnasol i bensiynau. Ar gyfer unrhyw farwolaethau sy'n digwydd ar ôl 6 Ebrill 2027, bydd y rhan fwyaf o arian pensiwn heb eu defnyddio a buddion marwolaeth mewn cyfandaliad mewn cynlluniau pensiwn fel ein hun ni yn cael eu cynnwys fel rhan o'ch ystâd wrth gyfrifo'r dreth etifeddiant sydd i'w thalu.

Ar hyn o bryd nid yw'r rheolau newydd yn cynnwys y rhan fwyaf o fuddion sy'n ymwneud â phensiynau dibynyddion y gall eich anwyliaid eu cael o'r Cynllun, na'r rhan fwyaf o fuddion marwolaeth mewn cyfandaliad os byddwch yn marw mewn gwasanaeth. Efallai y bydd y buddion yn dal i gael eu heithrio rhag treth etifeddiant, er y bydd yn dibynnu ar eich amgylchiadau a darpariaethau penodol eich gwahanol drefniadau pensiwn.

Gall treth etifeddiant fod yn faes cymhleth, felly dylech ystyried cael cyngor i'ch helpu i wneud y penderfyniadau cywir. Gallwch ddod o hyd i gynghorwyr ariannol annibynnol lleol yma: **www.unbiased.co.uk**. Ar gyfer ysgrifennu ewyllys a chynllunio ystadau, efallai y dylech gysylltu â chyfreithiwr, yn enwedig o ystyried y datblygiadau treth etifeddiant newydd.

Dangosfwrdd pensiynau a dod o hyd i bensiynau coll

Mae'r Cynllun yn parhau i weithio'n agos gyda Hymans Robertson i fwrw ymlaen ag un o fentrau mwyaf arwyddocaol y diwydiant pensiwn – cyflwyno'r Dangosfwrdd Pensiynau. Mae'r prosiect a gefnogir gan lywodraeth y DU yn caniatáu i unigolion nad ydynt wedi ymddeol eto gael mynediad i'w gwybodaeth mewn un lle am bensiynau heb eu hawlio gan y wladwriaeth a rhai preifat a gweithle. Bydd yn helpu unigolion i ddod o hyd i bensiynau coll a gweld y rhai presennol, nad ydynt yn cael eu talu eto, yn haws.

Nid yw'r Dangosfwrdd Pensiynau ar gael eto. Ond byddem yn eich annog i ddefnyddio'r Dangosfwrdd pan fydd ar gael. Os ydych wedi gweithio i gyflogwyr eraill cyn neu ar ôl eich amser yng Nghyngor y Celfyddydau, dylech allu dod o hyd i'r holl bensiynau o'r gweithleoedd gan ddefnyddio'r Dangosfwrdd. Gall helpu i roi syniad ichi o beth fydd eich pensiwn pan fyddwch yn ymddeol.

Er mwyn sicrhau'r siawns orau o weld eich holl wybodaeth bensiwn unwaith y bydd y Dangosfwrdd ar gael, mae'n bwysig bod gan eich holl gynlluniau pensiwn wybodaeth bersonol gyfredol amdanoch.

I weld a diweddaru'r data personol amdanoch sydd gan Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau (1994), ewch i'ch dangosfwrdd PRISM fel y nodir isod.

Ewch ar-lein gyda PRISM

Rydym yn parhau i'ch annog i fewngofnodi i PRISM, ein porth aelodau ar-lein a'r cartref i gael yr holl wybodaeth am eich buddion. Yno mae gwybodaeth ddefnyddiol ar y tudalen cartref yn ogystal â chyhoeddiadau a newyddion diweddar am y Cynllun.

Er mwyn cael y gwerth mwyaf o bopeth sydd ar gael ar y wefan, bydd angen ichi gofrestru eich manylion a mynd drwy broses ddiogelwch fer. Ar ôl mewngofnodi, gallwch ddeall rhagor am ragamcan eich pensiwn ar ôl ymddeol gyda'r Cynllun, gweld a diweddaru eich manylion personol, ychwanegu a diweddaru eich dewis fuddiolwyr (rydym yn eich annog i adolygu a diweddaru eich buddiolwyr yn rheolaidd) a llawer rhagor.

Ymweld

www.artscouncilplan.co.uk
i fewngofnodi

Sganio

y cod QR isod
i gofrestru

Os ydych yn cael problemau wrth fewngofnodi i'r wefan, mae croeso ichi gysylltu â gweinyddwyr y Cynllun gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 4.

BUDDSODDI ASEDAU'R CYNLLUN

Sut mae'r Cynllun yn cael ei fuddsoddi?

Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi asedau'r Cynllun â'r nod o sicrhau bod buddion aelodau yn cael eu talu pan fyddant yn ddyledus a chymryd agwedd gyfrifol at reoli'r buddsoddiadau. Maent yn cydbwyso cyfleoedd ar gyfer twf yn erbyn peryglon buddsoddi gan gofio natur hirdymor y Cynllun. Disgwylir i daliadau pensiwn barhau am ddegawdau lawer ac oherwydd bod y Cynllun yn parhau ar agor i newydd-ddyfodiaid ac aelodau presennol yn parhau i gronni buddion, mae'r Ymddiriedolwyr felly yn gallu cymryd golwg hirdymor iawn ar fuddsoddi.

Buddsoddi cyfrifol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y gall materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) effeithio ar berfformiad hirdymor buddsoddiadau'r Cynllun. Mae buddsoddi cyfrifol felly'n rhan bwysig o'r ffordd y mae'r Ymddiriedolwyr yn rheoli asedau'r Cynllun a diogelu buddion aelodau.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu y dylai buddsoddi cyfrifol gael ei ymgorffori mewn penderfyniadau buddsoddi yn hytrach na'i drin fel rhywbeth ar wahân. Mae'n cynnwys ystyried ffactorau ESG wrth ddewis a monitro rheolwyr buddsoddi a goruchwylio sut mae rheolwyr yn gweithio gyda'r cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt.

Adlewyrchir uchelgais hirdymor yr Ymddiriedolwyr yn eu Gweledigaeth ar gyfer Strategaeth wedi'i Buddsoddi'n Gyfrifol:

"Buddsoddi mewn ffordd lle ystyried cynaliadwyedd yn rhan o waith y rheolwyr a sicrhau bod y buddsoddi'n cyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy"


Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Ymddiriedolwyr yn adolygu eu dull o fuddsoddi cyfrifol.
Y nod yw sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu'r arfer gorau a'i fod yn briodol i faint y Cynllun a'i amgylchiadau. Fel rhan o'r gwaith, mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi nifer o feysydd i'w datblygu yn y dyfodol gan archwilio ffyrdd o wneud eu hagwedd at fuddsoddi a stiwardio cyfrifol yn gliriach a mwy hygyrch i aelodau.

Mae'n cynnwys datblygu Polisi Buddsoddi Cyfrifol ac ystyried sut y gall barn aelodau lywio datblygiad parhaus y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r gwaith barhau i'r flwyddyn nesaf wrth wireddu'r datblygiadau a gorffen y Polisi Buddsoddi Cyfrifol.

Mae manylion y strategaeth fuddsoddi a'r dull o fuddsoddi cyfrifol yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd ar gael i'r cyhoedd: https://artscouncilplan.co.uk/resources/statement-of-investment-principles/

Unwaith eto yn 2026 y derbyniodd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) yr Ymddiriedolwyr i fod yn llofnodwyr Cod Stiwardiaeth y DU. Mae hyn yn parhau i fod yn gamp sylweddol i gynllun pensiwn bach ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Ymddiriedolwyr i safonau uchel o stiwardiaeth a buddsoddi cyfrifol.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i adeiladu ar hyn wrth iddynt ddatblygu eu dull o stiwardiaeth a buddsoddi cyfrifol ymhellach dros y blynyddoedd i ddod. Buddsoddwyd yr asedau yn fras fel y dangosir yn y siart isod ar 30 Mehefin 2026.



**Efallai na fydd y siart yn adio i 100% (talgrynnu ffigurau)*

GWYBODAETH AM Y CYNLLUN


Pwy yw'r Ymddiriedolwyr?

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am redeg eich Cynllun yn effeithlon ac effeithiol. Yr Ymddiriedolwyr sy'n ffurfio'r bwrdd y Cynllun yw:

Mark Engelbretson	Cadeirydd, Ymddiriedolwr Proffesiynol
Ian Stevenson	Ymddiriedolwr a enwebwyd gan gyflogwr (Yr Alban Greadigol)
Navees Rahman	Ymddiriedolwr a enwebwyd gan gyflogwr (Cyngor Celfyddydau Lloegr)
Lorna Virgo	Ymddiriedolwr a enwebwyd gan y cyflogwr (Cyngor Celfyddydau Cymru)
Francis Runacres	Aelod pensiynwr a enwebwyd gan Ymddiriedolwr
Mumtaz Ali	Aelod gweithredol a enwebwyd gan Ymddiriedolwr

Beth yw aelodaeth y Cynllun?

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y Cynllun 2,913 o aelodau.



AELODAU GWEITHREDOL

Aelodau o'r Cynllun sydd ar hyn o bryd yn cronni buddion o'r gwasanaeth cyfredol.

AELODAU GOHIRIEDIG

Aelodau sydd wedi gadael y Cynllun ond heb ymddeol eto.

PENSIYNWYR

Aelodau sydd wedi ymddeol ac sy'n cael eu buddion pensiwn.

Pwy yw cynghorwyr proffesiynol y Cynllun?

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhai o'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd i weithwyr proffesiynol a chymryd cyngor gan arbenigwyr wrth wneud penderfyniadau. Cynghorwyr yr Ymddiriedolwyr yw:

Actiwari'r Cynllun	Bill Barnes, Hymans Robertson LLP
Archwilydd annibynnol	Crowe DU LLP
Gweinyddwyr	Hymans Robertson LLP
Rheolwyr buddsoddi	Buddsoddwyr IFM Legal & General Assurance (Pension Management) Cyf Quinbrook Infrastructure Partners (GP3) Cyf Storebrand Asset Management AS
Cynghorwyr buddsoddi	Hymans Robertson LLP
Darparwyr cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol	Aegon Scottish Equitable CCC
Cynghorwyr cyfreithiol	Sacker a Phartneriaid LLP
Cynghorwyr cyfamod	Grant Thornton LLP



Rhestr wirio pensiynau

Bob blwyddyn mae'n werth ichi ystyried ychydig o gwestiynau a allai gael effaith ar eich trefniadau pensiwn.

Gofynnwch	Beth i'w wneud
Allech ragori ar y lwfans blynyddol o £60,000 ar gyfer blwyddyn dreth 2026/27? Dyma'r uchafswm y gallwch chi neu rywun arall (fel eich cyflogwr) gyfrannu at eich holl bensiynau mewn blwyddyn, heb dalu treth.	Cysylltwch â Hymans Robertson am daflen ffeithiau ac ystyriwch gael cyngor ariannol annibynnol. Gallwch ddod o hyd i gynghorwyr ariannol annibynnol lleol ar: **www.unbiased.co.uk**. Os ydych yn meddwl bod hyn yn berthnasol ichi, dylech gysylltu â Hymans Robertson.
Oes posibiliad yr ewch dros uchafswm y lwfansau treth o ran y cyfandaliad? Mae'r lwfans cyfandaliad â therfyn o £268,275 ar y swm o arian di-dreth y gallwch gael gafael arno o'ch pensiynau. Mae'r Lwfans Cyfandaliad a Buddion Marwolaeth â therfyn o £1,073,100 ar y swm o arian di-dreth y gellir ei dalu yn ystod eich oes ac ar ôl marwolaeth.	
Ydych yn agosáu at ymddeol ac yn ystyried eich opsiynau?	Dylech ofyn am gyngor ariannol annibynnol a chysylltu â Hymans Robertson os ydych eisiau cael gwybod gwerth trosglwyddo eich pensiwn neu faint fydd eich pensiwn wrth ymddeol. Gallwch ddod o hyd i gynghorwyr ariannol annibynnol lleol ar: **www.unbiased.co.uk.**

Rheolwyr data

Mae'r Ymddiriedolwyr ac Actiwari'r Cynllun yn defnyddio eich data personol i weinyddu'r Cynllun. Mae pob un yn rheolydd data. Bydd eich data personol yn cael ei brosesu'n deg a chyfreithlon, yn unol ag egwyddorion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 ac o ran y Cynllun yn unig.
Gellir dod o hyd i fanylion am y defnyddiwn eich data personol yn yr hysbysiad preifatrwydd, ar gais gan weinyddwr y Cynllun neu: **www.artscouncilplan.co.uk/resources/privacy-notice/** Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich data personol, cysylltwch â gweinyddwyr y Cynllun gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 4.

Ydych yn meddwl gadael y Cynllun?

Os ydych, rydym yn argymell eich bod yn cymryd cyngor ariannol yn gyntaf. Am restr o gynghorwyr ariannol annibynnol lleol: www.unbiased.co.uk

Osgoi sgamiau pensiwn

Rhaid aros yn wyliadwrus a gwybodus i amddiffyn rhag sgamiau pensiwn. Mae sgamwyr yn aml yn esgus eu bod yn gynghorwyr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) gan gynnig cyfleoedd buddsoddi deniadol ond di-sail.

Sut i sylwi ar sgâm

- Byddwch yn wyliadwrus am alwadau a chynigion digymell, yn enwedig y rhai sy'n cynnig 'adolygu eich pensiwn am ddim' neu'n addo buddsoddi â pherygl isel ond enillion uchel. Mae sgamiau cyffredin yn cynnwys cynlluniau rhyddhau pensiwn yn gynnar, yn aml yn targedu pobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy bobl eraill.
- Addewidion o enillion mawr os ydych yn trosglwyddo eich arian dramor.
- Osgowch waith papur sy'n gofyn am lofnod ar unwaith neu gyngor i fuddsoddi eich holl arian mewn un lle. (Mae gwir gynghorwyr ariannol yn gyffredinol yn awgrymu arallgyfeirio eich asedau.)
- Byddwch yn amheus o honiadau am 'fannau gwan yn y gyfraith' sy'n eich galluogi i gael arian yn ôl o'ch pensiwn.



Os yw'r cynnig yn edrych yn rhy dda i fod yn wir – mae'n debyg nad yw'n wir!

Gallai syrthio i sgâm arwain at golli eich holl arian pensiwn ac efallai gorfod talu bil treth o hyd at 55% o'ch pensiwn am fynd ato'n gynnar.

Dilynwch 4 cam allweddol yr FCA:

1. Gwrthod cynigion annisgwyl
2. Gwirio â phwy rydych yn siarad
3. Gwrthod bod dan bwysau
4. Ceisio gwybodaeth neu gyngor diduedd

Am ragor o fanylion, ewch i'r canllawiau osgoi sgamiau pensiwn ar wefan y Cynllun: **https://artscouncilplan.co.uk/your-pension-knowledge/avoiding-pension-scams/**

Am ragor o wybodaeth

Os hoffech ragor o wybodaeth am unrhyw beth yn y datganiad, cysylltwch â gweinyddwr y Cynllun gan ddefnyddio'r manylion yma:

Cyfeiriad
Gweinyddwyr Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau
Hymans Robertson, 20 Stryd Waterloo, Glaschu/Glasgow G2 6DB
0141 566 7656
E-bost: artscouncil@hymans.co.uk